# Y CYNGOR 10/12/09

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Anna Lloyd Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd W Tudor Owen (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Bob Anderson, Stephen Churchman, Anwen Davies, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trefor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Simon Glyn, Margaret Griffith, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Dafydd Ll Hughes, Huw Hughes, Louise Hughes, O P Huws, Aeron M Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Eric Merfyn Jones, Evie Morgan Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, John Wynn Jones, W Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Peter Read, Dafydd Roberts, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Gwilym Euros Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Guto Rhys Tomos, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, Owain Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn Williams, Iwan Trefor Jones a Dafydd Lewis (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Cyfreithiol), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Perfformiad a Chraffu), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Dewi Jones (Pennaeth Addysg), Alwyn Evans Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Gwenan Parry (Pennaeth Gofal Cwsmer), Aled Davies (Pennaeth Rheoleiddio), Meinir Owen (Rheolwr Effeithlonrwydd Corfforaethol) Hefin Owen (Rheolwr Cyllid Datblygu), Seimon Williams (Rheolwr Prosiect Trefniadaeth Ysgolion), Tony Bates (Gwasanaeth Strategol a Gwella) ac Eleri Parry (Uwch Swyddog Pwyllgor)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Jean Forsyth, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffiths, Selwyn Griffiths, Christopher Hughes, Sylvia Humphreys, Linda Wyn Jones ac R L Jones

## 1 GWEDDI

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Huw Edwards

## 2 COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2009 fel rhai cywir, yn amodol ar nodi'r cywiriad bod y cyfarfod wedi dechrau am 1.00p.m. ac nid am 2.00p.m.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn briffio gan y Swyddog Monitro ynglŷn â thri mater oedd gerbron y Cyngor, sef Ad-drefnu Ysgolion Tywyn, Strategaeth Arbedion a Chytundeb Trosglwyddo Stoc Tai'r Cyngor gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd.

### Ad-drefnu ysgolion Tywyn

Nodwyd bod yr aelodau lleol wedi cael cyngor ar eu sefyllfa unigol, bod llywodraethwyr ysgolion yn cael siarad a phleidleisio ar y cynigion, a bod gan rhai aelodau ollyngiad gan

y Pwyllgor Safonau, oedd yn caniatáu iddynt siarad a phleidleisio heblaw ar rai ysgolion penodol.

**Strategaeth Arbedion 2010 – 2013**

Os byddai trafodaeth ar unrhyw gynnig penodol o fewn y pecyn, nodwyd y byddai gofyn i aelod oedd â buddiant yn y cynnig hwnnw ddatgan hynny ar gychwyn y drafodaeth.

**Trosglwyddo Stoc Tai**

Nodwyd bod gofyn i aelodau oedd ar Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd, ac unrhyw aelod oedd yn denant i'r Cyngor, ddatgan eu buddiant, ond bod ganddynt hawl siarad a phleidleisio.

(i) Datganodd aelodau fuddiant personol yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Alun Wyn Evans yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Tywyn, oherwydd bod ei wraig yn athrawes yn Ysgol Penybryn Tywyn.

Roedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

- Y Cynghorydd Louise Hughes yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Tywyn, oherwydd bod ei merch yn ysgol Llanegryn a'i bod yn llywodraethwr yn yr ysgol.

Roedd gan yr aelod ollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i siarad a phleidleisio ar yr amod nad oedd y gollyngiad yn ymestyn i drafodaethau ar ddyfodol yr ysgol lle'r oedd ei phlentyn yn ddisgybl. Felly roedd ganddi hawl siarad a phleidleisio ar yr ysgolion heblaw Ysgol Llanegryn, cyn belled a bod modd eu gwahanu.

- Y Cynghorydd Liz Saville Roberts yn yr eitem Strategaeth Arbedion 2010/ 2013 – Cynllun Addysg - codi incwm ar gludiant ôl-16 (Cynllun A5), oherwydd ei bod yn gyflogedig gan goleg addysg bellach, ac yn gweithio yn y sector ôl-16.
- Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Sian Gwenllian, Dafydd Roberts a W Gareth Roberts yn yr eitem Strategaeth Arbedion 2010/2013 – cynllun i godi incwm ar gludiant ôl-16 (Cynllun A5), oherwydd eu bod yn rhieni i blant a effeithir gan y cynllun.

Roedd yr aelodau o'r farn eu bod yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar y cynllun.

(ii) Datganodd yr aelodau fuddiant personol yn yr eitemau canlynol am y rhesymau a nodir:-

- Y Cynghorydd Dewi Owen yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Tywyn, oherwydd ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Aberdyfi a Pennal.
- Y Cynghorydd Arwel Pierce yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Tywyn, oherwydd ei fod yn gyn-bennaeth yn Ysgol Llanegryn, Ysgol Llwyngwril ac Ysgol Penybryn Tywyn a'i wraig yn gyn-bennaeth yn Ysgol Bryncrug.
- Y Cynghorydd John Pughe Roberts yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Tywyn, oherwydd ei fod yn llywodraethwr yn Ysgol Corris.

- Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones yn yr eitem Ad-drefnu Ysgolion Tywyn, oherwydd ei bod yn llywodraethwr ar Ysgol Penybryn Tywyn. Hefyd yn yr eitem Cytundeb Trosglwyddo Stoc Tai'r Cyngor gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd Cyfyngedig oherwydd ei bod yn aelod o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

- Y Cynghorwyr Brian Jones, Dewi Lewis a John Wyn Williams yn yr eitem Cytundeb Trosglwyddo Stoc Tai'r Cyngor gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd Cyfyngedig, oherwydd eu bod yn aelodau o Fwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

- Y Cynghorwyr Trefor Roberts ac Eryl Jones Williams yn yr eitem Cytundeb Trosglwyddo Stoc Tai'r Cyngor gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd Cyfyngedig, oherwydd eu body n denantiaid Cyngor.

- Y Cynghorwyr oedd yn y cynllun pensiwn ar gyfer aelodau'r Cyngor, yn yr eitem Strategaeth Arbedion 2010/2013 - cynllun i beidio cynnig pensiwn i aelodau'r Cyngor (DaC14)

Roedd yr aelodau o'r farn nad oeddynt yn fuddiannau oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**4 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(a) Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Glyn Roberts ar golli ei fam.

Hefyd cydymdeimlwyd a phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a safodd y Cyngor mewn distawrwydd, fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

(b) Llongyfarchwyd y canlynol:

(i) Cyngor Gwynedd ar ennill Siarter Datblygu a Chefnogi Aelodau;

(ii) Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor ar gael ei ddewis yn Wleidydd Llywodraeth Leol y Flwyddyn;

(iii) Y Cynghorydd W Gareth Roberts ar gyrraedd rownd derfynol Fferm Ffactor;

(iv) Gwasanaeth Cinio Ysgol Gwynedd sy'n un o bum Awdurdod Lleol drwy Brydain sydd wedi eu henwebu fel "Perfformiwr Gorau ar gyfer Arlwyo Addysg" gan yr "Association for Public Service Excellence"

**5 AD-DREFNU YSGOLION TYWYN**

(a) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15(1) derbyniodd y Cadeirydd y deisebau canlynol:-

(i) Deiseb wedi ei lofnodi gan 800 o bobl yn galw ar Gyngor Gwynedd i roi 'r gorau i'r bwriad o ad-drefnu addysg gynradd o fewn y sir, gan gau o leiaf 25 ysgol. Roeddynt hefyd yn galw ar i'r Cyngor ynghyd â llywodraeth Cynulliad Cymru i gyllido addysg yn deg ac i ragdybio yn erbyn cau ysgolion gwledig, yn unol â'r hyn a wneir gan Lywodraethau Datganoledig yr Alban, a Gogledd Iwerddon ac awdurdodau addysg Lloegr.

(ii) Deiseb wedi ei lofnodi gan 600 o bobl yn galw ar Gyngor Gwynedd i gadw Ysgol Aberdyfi ar agor cyn belled a bod yr addysg a ddarperir yno o'r safon uchaf.

Diolchodd y Cadeirydd am y deisebau a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r gwasanaeth perthnasol.

(b) Cyflwynwyd adroddiad Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol yn amlinellu cynigion i ad-drefnu ysgolion cynradd Tywyn, gosod y rhesymeg y tu ôl i'r cynigion a cheisio cymeradwyaeth y Cyngor i symud i gyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion.

(c) Cafwyd cyflwyniad manwl gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn gosod cefndir a chyd-destun strategaeth ad-drefnu ysgolion cynradd Cyngor Gwynedd a dalgylch Tywyn.

Adroddwyd bod y Cyngor wedi cymeradwyo strategaeth ar gyfer Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir yn Ebrill 2009,

Eglurodd mai prif nod y strategaeth oedd sicrhau bod plant ar draws y gyfundrefn gynradd yn derbyn y profiadau a'r addysg orau posibl. Rhoddwyd pwyslais ar sicrhau bod plant mewn dosbarthiadau priodol; eu bod mewn amgylchedd dysgu o'r ansawdd orau; bod arweinyddiaeth o safon ar draws y sir; datblygu a chryfhau'r iaith Gymraeg; datblygu rhwydwaith o ysgolion cymunedol a gwneud y defnydd gorau o adnoddau dynol ac ariannol.

Roedd cytundeb bod angen cynllunio'r newid fesul dalgylch, gan roddi blaenoriaeth i ddalgylchoedd lle'r oedd yr angen am newid fwyaf amlwg, ac adnabuwyd Tywyn fel y dalgylch cyntaf i'w hadolygu. Eglurwyd bod ardal Tywyn wedi gweld gostyngiad sylweddol yn niferoedd y plant, a bod chwech o'r wyth ysgol yn y dalgylch gyda llai na 30 o blant, ac yn cael gwarchodaeth gan y Cyngor.

Rhoddwyd pwyslais mawr yn y strategaeth ar fod yn gynhwysol, a chynllunio'r newid law a llaw a chynrychiolwyr lleol. Cyflawnwyd hyn trwy'r Panel Adolygu Dalgylch, cyfarfodydd gydag ysgolion unigol, sesiynau ar gyfer plant a phobl ifanc. Hefyd gwnaed ymdrech i sicrhau bod y cyhoedd a'r gymunedol leol yn ymwybodol o'r datblygiadau.

Roedd cytundeb bod angen trafodaeth agored wrth symud ymlaen. Ystyriwyd 13 opsiwn a chloriannwyd yn ofalus manteision ac anfanteision pob opsiwn gan y Panel Adolygu Dalgylch a'r Panel Ymgynghorol Sirol. Pwysleisiwyd bod y cynigon wedi derbyn sêl bendith y Panel Adolygu Dalgylch, Panel Ymgynghorol Sirol, Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a Bwrdd y Cyngor.

Eglurodd y Cyfarwyddwr bod y gwaith o adnabod safleoedd addas ar gyfer datblygu Ysgol ardal ar y gweill ond na ellir dod i gytundeb hyd oni fydd y drefn statudol wedi derbyn sylw.

Nododd bod grantiau a rhaglenni cyfalaf gan y Cynulliad ar gyfer cefnogi datblygiad ysgolion ardal newydd. Hefyd roedd gan y Cyngor arian o fewn rhaglen gyfalaf ar gyfer datblygu ysgolion ardal newydd, ac na fyddai cyfalaf yn rhwystr i adeiladu ysgol ardal.

Nodwyd bod y gweithgareddau hyd yn hyn yn rhan o'r broses o gasglu gwybodaeth wrth lunio cynigion cychwynnol ac nad oedd yn rhan o'r broses statudol o adolygu'r ddarpariaeth yn nalgylch Tywyn.

Os fydd y Cyngor yn cymeradwyo'r argymhellion, eglurodd y bydd y cyfnod o ymgynghori statudol yn digwydd yn y cymunedau. Cyflwynir adroddiad i'r Cyngor ym Mai, yna bydd cyfle i'r cyhoedd wneud gwrthwynebiad ffurfiol a chyflwynir adroddiad i'r Cyngor ym Medi 2010 er penderfyniad terfynol.

(ch) Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhellion oedd gerbron.

(d) Cyflwynwyd sylwadau gan y Cynghorydd Liz Sville Roberts, Arweinydd Portffolio Addysg.

Eglurodd yr aelod ei bod yn ddiolchgar i drigolion Bro Dysynni a mudiadau lleol am eu teyrngarwch i'w cymunedau, fodd bynnag pwysleisiodd bod rhaid newid er mwyn cyflawni'r gwelliant angenrheidiol.

Cyfeiriodd at y sefyllfa ddyrys ym Mro Dysynni, gyda niferoedd disgyblion yn syrthio'n gyson, problemau i sicrhau presenoldeb pennaeth cymwys, ac addysg a diwylliant wedi Seisnigeiddio mewn rhai ysgolion.

Cyfeiriwyd at Gylchlythyr y Cynulliad a gyhoeddwyd ar ddiwedd trafodaethau'r Panel Adolygu Dalgylch. Yn unol â gofynion y cylchlythyr, eglurodd y bwriedir cynnal asesiad ieithyddol a chymunedol, yn gynnar yn y flwyddyn newydd, cyn cynnal y cyfarfodydd ymgynghori statudol yn yr ysgolion.

Ymhellach, cyfeiriodd at adroddiad ESTYN a fydd yn cael ei gyhoeddi ymhen ychydig fisoedd. Eglurodd y bydd yr adroddiad yn hallt ei feirniadaeth o arweinwyr gwleidyddol y sir, oherwydd eu harafwch i wneud penderfyniadau angenrheidiol i sicrhau bod gwariant yn cael ei yrru gan anghenion dysgu plant y sir, yn hytrach nag ar adeiladwaith yr ysgolion.

Cyfeiriodd at ei bwriad i barhau i ymgyrchu i sicrhau y rhoddir blaenoriaeth ac adnoddau digonol i addysg yng Ngwynedd, ac i sicrhau bod y plant mwyaf anghenus y sir yn cael y budd gorau o'r adnoddau.

Pwysleisiodd nad oedd yr argymhellion oedd gerbron yn penderfynu'n derfynol ar ddyfodol statws ysgolion Bro Dysynni. Yn hytrach roeddynt yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i symud ymlaen i gyfnod o ymgynghori statudol, a nododd y bydd y cynigion terfynol yn dod yn ôl i'r Cyngor llawn am benderfyniad.

Anogodd aelodau i gefnogi'r argymhellion radical oedd yn cynnig dyfodol i addysg wledig cyfrwng Cymraeg ym Mro Dysynni.

(dd) Mynegwyd gwrthwynebiad gan sawl aelod i'r argymhellion oedd gerbron, a chyflwynwyd sylwadau niferus.

Awgrymodd aelod y dylid oedi penderfyniad, er mwyn trafod trefniadau cyllido addysg gyda'r Gweinidog Addysg newydd, ac er mwyn gweld beth oedd y sefyllfa economaidd yn ystod y ddwy/dair blynedd nesaf.

Nododd aelod arall ei fod yn bryderus iawn oherwydd bod rhagdybiaeth i gau ysgolion gwledig, nododd bod y farn leol yn cael ei hanwybyddu a chyfeiriodd at ganmoliaeth ESTYN i safon uchel yr addysg yn ysgolion Bro Dysynni.

Eglurodd aelod arall ei fod o'r farn nad oedd rhesymau addysgol, cymdeithasol, diwylliannol nac ariannol dros gau ysgolion gwledig Bro Dysynni, a mynegodd siom nad oedd asesiadau perthnasol digonol wedi eu cyflawni fel rhan o'r gwaith.

(e) Nododd aelod Bryncrug a Llanfihangel bod yr ardal yn brawf o'r newid demograffeg sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd. Eglurodd y gwelwyd gostyngiad yn niferoedd y plant sy'n mynychu'r ysgolion, a bod hyn wedi cael effaith mawr ar gyllidebau'r ysgolion, ac y bu rhaid iddynt ddibynnu ar warchodaeth ariannol gan y Cyngor. Pwysleisiwyd bod hyn wedi achosi pryder cyffredinol ynglŷn â dyfodol yr ysgolion ac wedi cael effaith sylweddol ar forâl. Gwelwyd rhai rhieni'n symud eu plant i ysgolion mwy ar draul yr ysgolion bach.

Eglurodd ei bod yn anodd cynllunio ar gyfer anghenion yr unigolyn mewn ysgolion bach gwledig, a'i bod hefyd yn anodd cynnig ystod eang o brofiadau addysgol a chymdeithasol cytbwys i blant. Pwysleisiodd ei fod wedi dod i'r casgliad y byddai Ysgol Ardal y diwallu anghenion plant yr ardal yn well. Nododd bod llywodraethwyr y ddwy ysgol a phobl yr ardal yn cytuno y dylid sefydlu Ysgol Ardal newydd rhwng Bryncrug a Llanegryn, er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol, a rhoi sicrwydd bod y ddarpariaeth o'r safon orau posibl ar gyfer plant y fro.

.

(f) Cyfeiriodd aelod lleol Aberdyfi at ei wrthwynebiad i gau Ysgol Aberdyfi, a mynegodd bryder y byddai cau'r ysgol yn cael effaith andwyol ar y pentref. Fodd bynnag, os fydd y Cyngor yn cefnogi'r argymhellion, gofynnodd am i Ysgol Aberdyfi gau'r un pryd a'r pedair ysgol arall, yn 2014, neu pan fydd yr Ysgol Ardal newydd wedi ei adeiladu.

(ff) Eglurodd aelod Llangelynin ei bod o'r farn bod gan y Cyngor ragdybiaeth i gau ysgolion gwledig yr ardal. Nododd nad oedd cynigion Arweinydd Portffolio Addysg yn wahanol i'r cynigion a gyflwynwyd yn 2008, ac roedd yn anfodlon iawn na ystyriwyd barn y trigolion lleol wrth lunio'r cynigion. Pwysleisiodd bwysigrwydd cyfraniad ysgol wledig i fywyd y gymuned, ac roedd yn bryderus y byddai cau'r ysgol yn cael effaith andwyol ar economi'r fro. Cyfeiriodd at safon addysg uchel Ysgol Llwyngwril, a nododd bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu yno. Eglurodd bod y ffordd o Lwyngwril i Lanegryn yn gul a pheryglus a bod rhieni'n poeni ynglŷn â diogelwch eu plant.

Mewn ymateb i honiadau o ddiffyg gwrando ar y gymuned leol, eglurodd aelod o'r gweithgor bod y Cyngor wedi llunio cynllun cyfathrebu manwl a blaengar er mwyn trafod a cheisio barn cymunedau. Pwysleisiodd bod y Cyngor wedi gwrando a thrafod gyda chymunedau, a bod yr argymhellion yn cynnwys ystyriaeth o'r farn leol. Tra'n derbyn bod rhai yn gwrthwynebu'r cynigion, eglurodd eu bod wedi derbyn croeso brwd gan lawer yn yr ardal. Pwysleisiodd bod angen cynllunio'r newid yn ofalus er mwyn sefydlogi'r sefyllfa a symud ymlaen yn hyderus.

(g) Adroddodd aelod Corris bod y sefyllfa wedi creu tensiwn a straen yn yr ardal, a'r oedi wedi golygu ansicrwydd i blant, rheini ac athrawon, a bod rhaid dod i benderfyniad ar y mater. Cyfeiriodd at feirniadaeth hallt oherwydd arafwch y Cyngor i wneud penderfyniadau anodd , a mynegodd bryder y bydd ymyrraeth o'r tu allan os na fydd y Cyngor yn penderfynu ar y mater.

Eglurodd yr aelod y bydd Ysgol Corris a Phenybryn yn colli arian sylweddol os na fydd y Cyngor yn cymeradwyo'r cynigion, ac y bydd hyn yn golygu colli athrawon a staff. Pwysleisiodd ei fod yn llwyr gefnogol i'r cynigion, a'r cyngor cymuned, llywodraethwyr, rhieni a staff Ysgol Corris hefyd yn gefnogol iddynt, a bod Ysgol Corris a Phennal yn edrych ymlaen at gydweithio'n hapus i'r dyfodol.

(h) Cynigiwyd ac eiliwyd y gwelliant canlynol:-

- (i) bod ysgolion Corris a Phennal yn aros ar agor ac yn symud tuag at drefniant cydweithio erbyn mis Medi 2010;
- (ii) bod Ysgol Abergynolwyn yn cau yng Ngorffennaf 2010 a'r plant yn trosglwyddo i Ysgol Bryncrug erbyn Medi 2010;
- (iii) bod Ysgol Aberdyfi yn aros ar agor ac yn edrych i gydweithio'n ffurfiol gydag unai Ysgol Penybryn neu Ysgol Pennal erbyn Medi 2010;
- (iv) bod Ysgol Llanegryn yn aros ar agor ac yn edrych i gydweithio'n ffurfiol gydag Ysgol Bryncrug erbyn Medi 2010;
- (v) bod Ysgol Llwyngwril yn aros ar agor ac yn edrych i gydweithio'n ffurfiol gydag Ysgol Y Friog erbyn Medi 2010

Yn unol â rheol gweithdrefn 19(6), cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y gwelliant uchod

**O blaid: (21)** Y Cynghorwyr: Bob Anderson, Stephen Churchman, Anwen Davies, T G Ellis, Simon Glyn, Alwyn Gruffydd, Dafydd Ll Hughes, Louise Hughes, Aeron M Jones, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, Llinos Merks, Peter Read, Dafydd Roberts, Gwilym Euros Roberts, Siôn Roberts, Guto Rhys Tomos, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

**Yn erbyn: (44)** Y Cynghorwyr **:** E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trefor Edwards, Alan Jones Evans, Margaret Griffith, Siân Gwenllïan, Huw Hughes, O P Huws, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Evie Morgan Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, John Wynn Jones, W Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Ann Williams, J.W.Williams a R H Wyn Williams.

**Atal pleidlais (1)** Y Cynghorydd Eric Merfyn Jones

Adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

(I) Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant bod Ysgol Aberdyfi yn aros ar agor am y tro, a bod yr ysgol yn cau ar yr un pryd a phan fo'r pedair ysgol arall yn cau yn 2014, neu pan fydd yr Ysgol Ardal newydd wedi ei adeiladu.

Pleidleisiwyd ar y cynnig ac adroddodd y Cadeirydd bod y gwelliant wedi syrthio.

(j) Yn unol â rheol gweithdrefn 19(6), cofnodwyd y bleidlais ganlynol ar y cynnig gwreiddiol

**O blaid: (45)** Y Cynghorwyr: E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trefor Edwards, Alan Jones Evans, Margaret Griffith, Siân Gwenllïan, Huw Hughes, O P Huws, Aeron M Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Evie Morgan Jones, John Gwilym Jones, J R Jones, John Wynn Jones, W Penri Jones, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Linda Morgan, Dewi Owen, W Roy Owen, W Tudor Owen, Arwel Pierce, Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz

Saville Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Ann Williams, J.W.Williams, ac R H Wyn Williams.

**Yn erbyn: (18)** Y Cynghorwyr: Bob Anderson, Anwen Davies, T G Ellis, Simon Glyn, Alwyn Gruffydd, Dafydd Ll Hughes, Eryl Jones-Williams, Dilwyn Lloyd, Llinos Merks, Peter Read, Dafydd Roberts, Gwilym Euros Roberts, Siôn Roberts, Guto Rhys Tomos, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, Owain Williams a Robert J Wright.

**Atal pleidlais (2)** Y Cynghorydd Stephen Churchman ac Eric Merfyn Jones

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion cynradd dalgylch Tywyn, fel sail i ymgynghori sef;**

**(i) Sefydlu ysgol ardal newydd yn ardal Bryncrug neu Lanegryn i agor yn ystod blwyddyn academaidd 2013-14, a chau Ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llwyngwril a Llanegryn pan fyddai'r ysgol newydd yn barod, a symud i gyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion yn ystod Gwanwyn 2010.**

**(ii) Cau Ysgol Aberdyfi erbyn Medi 2011 gan gynnig lle i blant y dalgylch yn Ysgol Penybryn, Tywyn, a symud i gyfnod o ymgynghori statudol ar y cynigion yn ystod Gwanwyn 2010.**

**(iii) Hybu cydweithio rhwng Ysgolion Pennal a Dyffryn Dulas, Corris.**

## 6 STRATEGAETH ARBEDION 2010-2013

(a) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15(i) derbyniodd y Cadeirydd deiseb a drefnwyd gan Gorff Llywodraethwyr Ysgol Carmel wedi ei harwyddo gan tua 200 o bobl yn gofyn i'r aelodau bleidleisio yn erbyn unrhyw doriad a allai effeithio'n barhaol ar ddyfodol yr ysgol a'r addysg.

Diolchodd y Cadeirydd am y ddeiseb a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r gwasanaeth perthnasol.

(b) Cyflwynwyd adroddiadau gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Strategol a Gwella ar fabwysiadu Strategaeth Arbedion ar gyfer 2010/2011.

Adroddwyd gan y Prif Weithredwr bod sefyllfa arian gyhoeddus mewn cyflwr enbydus, ac y bydd yn rhaid i'r Cyngor ddarganfod arbedion sylweddol iawn am y saith/wyth mlynedd nesaf. Yn seiliedig ar dybiaethau, eglurwyd bod y Cyngor wedi dynodi £16.2m o arbedion dros y 3 blynedd nesaf, ond bod posibilrwydd y bydd angen darganfod arbedion uwch am gyfnod hwy.

Nodwyd y bydd y lleiafswm o £16 miliwn y mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen ei wireddu dros y tair blynedd nesaf yn dod o'r ffynonellau canlynol:-arbedion effeithlonrwydd (74%),creu incwm ychwanegol (10%) a thorri gwasanaethau (16%)

(ch) Manylwyd gan yr Arweinydd ar arwyddocâd y categorïau oedd gerbron, sef

- Grŵp A – cynlluniau i'w gweithredu a gwireddu'r swm. Nodwyd bod y rhan helaeth ohonynt yn gynlluniau bach h.y. llai na £50,000 ac asesiad effaith isel, a / neu wedi derbyn cefnogaeth dros 60% yn y categori 'Ydi' yn y sesiynau canfod barn aelodau;
- Grŵp B – cynlluniau i'w gweithredu a gwireddu'r swm, ond bod angen gwaith pellach i ddatblygu a chytuno cynllun manwl gan adrodd am benderfyniad i Fwrdd y Cyngor . Nodwyd bod y cynlluniau yma wedi derbyn dros 50% o gefnogaeth 'Ydi' a 'Tebygol' yn y sesiynau canfod barn aelodau

- Grŵp C - angen cwblhau gwaith pellach i asesu opsiynau amgen yn y maes yn ystod 2010/11, cyn dod i gasgliad terfynol yn hytrach na derbyn y cynllun yn ei ffurf bresennol
- Grŵp Ch – nodwyd nad oeddynt i'w gweithredu ar hyn o bryd.

O safbwynt Canolfannau Hamdden (DH5), eglurodd yr Arweinydd bod bwriad cynnal adolygiad strategol o'r holl faes hamdden ac ystyried opsiynau a dewisiadau fydd yn sicrhau gwasanaeth effeithiol ac effeithlon i'r dyfodol. Hefyd mewn perthynas ag addysg ar gyfer plant tair oed (Cynllun A1) eglurodd bod bwriad trafod ymhellach gyda'r mudiadau meithrin er mwyn cytuno strategaeth feithrin i'r dyfodol. Hefyd bwriedir cyflawni gwaith pellach mewn perthynas â llyfrgelloedd ac amgueddfeydd.

(ch) Cynigiwyd ac eiliwyd y cynigion oedd gerbron.

(d) Ymhelaethodd Cadeirydd y Prif Bwyllgor Craffu ar brif gamau'r strategaeth a diolchodd i bawb am eu gwaith caled i ddod a'r cynigion gerbron.

Eglurwyd yr ystyriwyd y strategaeth arbedion gan Fwrdd y Cyngor ar 1 Rhagfyr 2009, ac yn dilyn hynny cafodd y Gweithgor Gwella a'r Prif Bwyllgor Craffu cyfle i ystyried argymhellion y Bwrdd. Nodwyd bod aelodau'r gweithgor a'r pwyllgor yn derbyn yr argymhellion fel rhai rhesymegol o dan yr amgylchiadau, ac yn fodlon gweithredu arbedion ysgolion cynradd ym mlwyddyn 2010/11. Fodd bynnag roeddynt yn dymuno ail edrych ar y sefyllfa yn y blynyddoedd dilynol ac wedi argymell symud arbedion ysgolion cynradd ar gyfer 2011/12 a 2012/13 i Grŵp B.

Nododd cynigydd ac eilydd y cynigion gwreiddiol eu bod yn derbyn gwelliant y Prif Bwyllgor Craffu i symud arbedion ysgolion cynradd ar gyfer 2011/12 a 2012/13 i Grŵp B, er mwyn ystyried a chytuno lefel terfynol y toriad ar gyfer y ddwy flynedd yma.

(d) Cyflwynwyd sylwadau a cheisiwyd eglurder gan aelodau ynglŷn â nifer o'r cynlluniau, ac yn dilyn ymateb ac eglurhad gan swyddogion ac arweinwyr portffolio, roedd cytundeb ynglŷn â rhan helaeth o'r strategaeth.

(dd) Nodwyd gwrthwynebiad i gynnwys rhai cynlluniau.

(i) Nododd aelod ei fod yn anfodlon ynglŷn â'r cynllun i godi incwm ar gludiant ôl-16 drwy godi tal o £5 yr wythnos ar bawb oedd yn byw ymhellach na 3 milltir o'r ysgol/coleg, (Cynllun A5).

Mewn ymateb mynegodd sawl aelod bryder ynglŷn â thynnu swm sylweddol o £330,000 o'r pecyn heb adnabod rhywbeth i gymryd ei le.

Syrthiodd gwelliant i dynnu'r cynllun i godi incwm ar gludiant ôl 16 o Grŵp A a'i symud I Grŵp CH.

(ii) Mewn perthynas â'r cynllun i beidio cynnig pensiwn i aelodau (Cynllun DaC14) nododd aelod bod aelodau'n rhydd i drefnu pensiwn preifat ac na ddylai'r cyhoedd ysgwyddo'r gost. Awgrymwyd y dylid symud y cynllun i gategori Grŵp A.

Nododd aelod arall bod rhai aelodau yn rhoi gorau i yrfa er mwyn dod yn gynghorydd, ac ar eu colled yn ariannol, a'i bod yn bwysig bod cynllun pensiwn ar gael iddynt.

Syrthiodd gwelliant i symud y cynllun i beidio cynnig pensiwn i aelodau (Cynllun DaC14) o Gategori Grŵp CH i Gategori Grŵp A.

(iii) Mewn ymateb i'r awydd i gyflawni mwy o arbedion, cytunwyd y dylid cyflawni gwaith pellach yn y cylch nesaf ar gynlluniau i godi ffi yn nhoiledau prysuraf y sir (Cynllun PB 11) a lleihau fflyd cerbydau'r Cyngor (Cynllun PB 7) er mwyn uchafu'r arbedion.

Diolchodd yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr i swyddogion Gwasanaeth Strategol a Gwella, aelodau'r Gweithgor Arbedion a holl aelodau'r Cyngor am eu cyfraniad i ddod â'r cynigion gerbron o dan amgylchiadau anodd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Strategaeth Arbedion ar gyfer 2010/11 – 2012/13, sef,**

**(i) gweithredu'r cynlluniau a gwireddu'r arbedion yn Grŵp A a B, cwblhau gwaith pellach ar gynlluniau yn Grŵp B i ddatblygu a chytuno cynllun manwl, ac adrodd am benderfyniad i Fwrdd y Cyngor, ond symud arbedion ysgolion cynradd ar gyfer 2011/12 a 2012/13 i Grŵp B. Mae hyn yn golygu o ran ysgolion cynradd y bydd y Cyngor llawn yn 2010/11 yn ystyried a chytuno yn derfynol lefel y toriad a goblygiadau gweithredu yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol pryd hynny.**

**(ii) peidio derbyn cynlluniau yn Grŵp C yn eu ffurf gyfredol, ac awdurdodi cwblhau gwaith pellach ar gynlluniau Grŵp C, er mwyn asesu opsiynau amgen yn y maes yn ystod 2010/11, cyn dod i gasgliad terfynol ynglŷn â'r cynlluniau;**

**(iii) peidio gweithredu ymhellach ar gynlluniau Grŵp Ch ar hyn o bryd.**

## 7 CYTUNDEB TROSGLWYDDO STOC TAI Y CYNGOR GYDA CHARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD CYFYNGEDIG

Cyflwynwyd adroddiad Dafydd Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol.

Adroddwyd ei bod yn ofynnol i'r Cyngor baratoi dogfen Cytundeb Trosglwyddo Stoc Tai cynhwysfawr sy'n amlinellu'r holl faterion perthnasol i sefydlu Cartrefi Cymunedol Gwynedd, sydd i'w gyflwyno er sêl bendith y Cynulliad. Caiff y Cytundeb ei arwyddo gan y Cyngor a Chartrefi Cymunedol Gwynedd ar ddydd y trosglwyddiad.

Nodwyd bod Pwyllgor Craffu Gofal a Bwrdd y Cyngor wedi cymeradwyo'r Cytundeb ac wedi cytuno ar faterion sydd angen eu trafod rhwng y Cyngor a'r corff newydd.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Cymeradwyo'r Cytundeb Trosglwyddo Stoc Tai i'w gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru;**

**(b) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol i weithredu unrhyw newidiadau pellach i'r Cytundeb all ddod yn amlwg o drafodaethau gyda Chartrefi Cymunedol Gwynedd**

## 8 RHYBUDD O GYNNIG

(i) Cyflwynwyd - y rhybudd o gynnig canlynol a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Dafydd Ll Hughes o dan Reol Gweithdrefn rhif 13 ynghyd â rhybudd trefniadaethol o dan Reol Gweithdrefn 13(12) yn gofyn am drafod y cynnig yn y Cyngor heb ei gyfeirio i bwyllgor yn gyntaf:-

**PENDERFYNWYD trafod y cynnig yn y cyfarfod hwn.**

Cynigiwyd ac eiliwyd y cynnig canlynol:-

**"Yn sgil apwyntiad Prif Gwnstabl newydd i Ogledd Cymru, hoffwn ofyn i fy nghyd - gynghorwyr gytuno i ymestyn gwahoddiad i'r Prif Gwnstabl a Chadeirydd Heddlu Gogledd Cymru i gyfarfod llawn, gynharaf cyfleus o Gyngor Gwynedd, er mwyn i ni gael gwybod beth yw ei weledigaeth ar blismona yma yng Ngwynedd"**

**PENDERFYNWYD**

**(i) mabwysiadu'r cynnig i ymestyn gwahoddiad i'r Prif Gwnstabl a Chadeirydd Heddlu Gogledd Cymru i gyfarfod llawn, gynharaf cyfleus o Gyngor Gwynedd, er mwyn i gael gwybod beth yw ei weledigaeth ar blismona yma yng Ngwynedd"**

**(ii) Awdurdodi Dafydd Lewis, Cyfarwyddwr Corfforaethol i weithredu ar y cynnig**

**Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 4.25 p.m.**

____________________________________

**CADEIRYDD**